

Pecyn Dogfennau



Wendy Walters
Prif Weithredwr,
Chief Executive,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

DYDD MAWRTH, 14 IONAWR 2020

AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR SAFONAU

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR SAFONAU** A GYNHELIR YN Y **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN AM 10.00 YB, DYDD MAWRTH, 21AIN IONAWR, 2020** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR



AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

Swyddog Democrataidd:	Martin S. Davies
Ffôn (llinell uniongyrchol):	01267 224059
E-bost:	MSDavies@sirgar.gov.uk
Cyf:	AD016-001



EICH CYNGOR arleinamdani

www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline

www.carmarthenshire.gov.wales

PWYLLGOR SAFONAU

AELODAETH: 9 AELOD

Aelodau Annibynnol (5)

1. Mrs Mary Dodd Is-Cadeirydd y Pwyllgor
2. Mrs Daphne Evans
3. Mrs Julie James
4. Mr M. Andre Morgan Cadeirydd y Pwyllgor
5. Mr Alun Williams

Aelod Pwyllgor Cymunedol (1)

1. Cynghorydd Tref Philip Rogers

Aelodau Etholedig y Cyngor Sir (3)

1. Y Cynghorydd Jeanette Gilasbey
2. Y Cynghorydd Rob James
3. Y Cynghorydd Gareth Thomas

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.
2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.
3. LOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 6ED RHAGFYR 2019. 5 - 10
4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD ANNE CARYS JONES. 11 - 22
5. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD EDWARD THOMAS. 23 - 32
6. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD KEN LLOYD. 33 - 44
7. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYD YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

PWYLLGOR SAFONAU

6 RHAGFYR 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd M.A. Morgan (Cadeirydd)

Aelodau Annibynnol:

Mrs M. Dodd, Mrs D. Evans, Mrs J. James ac A. Williams.

Aelod Cymunedol:

Y Cynghorydd Tref P. Rogers.

Y Cynghorwyr:

S.J.G. Gilasbey a D.M. Cundy [yn lle R. James].

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Y Siambr- Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP: 10:00yb - 11:10yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd R. James a'r Cynghorydd G. Thomas.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR 18 TACHWEDD 2019

PENDERFYNWYD Ilofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2019 yn gofnod cywir.

4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD CAROL DYER

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Carol Dyer o Gyngor Cymuned Myddfai am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio mewn perthynas â materion yn ymwneud â Menter Bro Dinefwr (MBD) ac Y Lloffwr, papur newydd cymunedol Cymraeg.

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Dyer fuddiant personol yn y materion hyn yn rhinwedd paragraff 10(2)(a)(ix)(ee) o'r Côd Ymddygiad gan mai hi yw Cyfarwyddwr Menter Bro Dinefwr (swydd wirfoddol) a chan mai hi yw Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer Y Lloffwr (swydd wirfoddol).

Roedd buddiant y Cynghorydd Dyer hefyd yn rhagfarnol, petai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Dyer wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliad 2 (d) (e) (f) (g) a (h) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth y Pwyllgor y dylai, wrth ystyried y cais, nodi mai paragraffau 2 (d) a (h) oedd y rhesymau mwyaf priodol pe byddai'r Pwyllgor am gymeradwyo'r cais i siarad yn unig.

Yn dilyn trafodaeth,

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu gollyngiad o dan Reoliad 2 (d) a (h) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Carol Dyer SIARAD yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Myddfai mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r canlynol:

- **Menter Bro Dinefwr (MBD);**
- **Y Lloffwr,**

a bod y gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd y cyfnod etholiadol presennol.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2018/2019

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'w Adroddiad Blynyddol 2018/19 ynghylch y gwaith oedd wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod hwnnw a nododd, petai'r adroddiad yn cael ei fabwysiadu, y byddai'n cael ei roi gerbron cyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr 2020 i'w gymeradwyo.

Yn unol â chofnod 8 o gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr, 2018 rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth ystadegol ychwanegol i'r Aelodau o ran canlyniadau'r achosion a gwblhawyd. Roedd y wybodaeth yn cynnig data cymharol o adroddiadau blynyddol a oedd yn ddyddiedig o 2012. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod cynnydd yn nifer y cwynion 'datgelu camarfer' yn ystod y camau disgyblu, a oedd yn cymhlethu materion yn fawr ac o ganlyniad i hynny, yn achosi oedi o ran cwblhau'r broses datgelu camarfer. Dywedwyd y gwerthfawrogwyd y wybodaeth hon ac y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor barhau i fonitro tueddiadau'r dyfodol o ran achosion a gwblhawyd.

Rhoddodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith wybod i'r Pwyllgor ei bod, wrth godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ymddygiad da, wedi cynnwys gwybodaeth am Egwyddorion Nolan a'r Polisi Datgelu Camarfer mewn llythyr newyddion adrannol diweddar i'r holl staff.

Yn dilyn awgrym, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n fuddiol cynnwys rhestr o aelodau'r Pwyllgor yn yr adroddiad. Cytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i gynnwys y wybodaeth hon cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn ym mis Ionawr.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR fabwysiadu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2018/19 yn amodol ar gynnwys aelodaeth y Pwyllgor.

6. E-DDYSGU YNGHYLCH DATGELU CAMARFER

Ystyriodd y Pwyllgor y rhifyn diweddaraf o 'Goflyfr Côd Ymddygiad' Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, a oedd yn cynnwys achosion a gwblhawyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019.

Nododd y Pwyllgor fod y Coflyfr yn amlygu dau achos a gafodd eu cyfeirio at Bwyllgorau Safonau lleol er mwyn iddynt benderfynu arnynt ac un achos a gafodd ei gyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru. Roedd copïau o'r hysbysiadau o benderfyniadau a gyflwynwyd gan y ddau Bwyllgor Safonau ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1 a 2.

Gwerthfawrogwyd y wybodaeth am benderfyniadau'r Pwyllgor Safonau. Dywedwyd nad oedd y cyfnod atal o ddyletswyddau yn ddigonol yn yr achosion a ddarparwyd. Esboniodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, er bod Pwyllgorau Safonau lleol yn penderfynu ynghylch y cyfnod atal, mai'r gosb fwyaf y gallent ei gosod oedd cyfnod atal o chwe mis yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y broses o benderfynu ar y cosbau a osodir wedi'i nodi yn yr atodiadau.

Mewn ymateb i ymholiad a wnaed ynglŷn â thaliadau i Gynghorwyr yn ystod cyfnodau atal, eglurodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith fod pwynt 18 o adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2019/20 yn nodi, "Os caiff aelod ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r rhan o'r cyflog sylfaenol sy'n daladwy i'r aelod hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod hwnnw wedi'i atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur). Os bydd y penderfyniad i'w atal dros dro yn ymwneud â'r elfen o'r taliad sy'n ymwneud â'r cyfrifoldeb penodol yn unig, gall yr aelod gadw'r cyflog sylfaenol."

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

7. CYDYMFFURFIO Â'R CÔD YMDDYGIAD GAN GYNGHORWYR TREF A CHYNGHORWYR CYMUNED

Ystyriodd y Pwyllgor, fel rhan o'i rôl i fonitro a yw Cyngorau Tref a Chymuned yn cydymffurfio â'r Côt, adroddiad yn nodi lefelau'r hyfforddiant a gafwyd ynghylch y Côt, datganiadau o fuddiant, ceisiadau am ollyngiad a ganiatawyd a chwynion o ran y Côt Ymddygiad ar gyfer yr awdurdodau hynny yn ystod y cyfnod 2016/17 - 2018/19. Roedd taenlen, a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad, yn cynnwys y wybodaeth a roddwyd ac yn caniatáu cymharu â blynyddoedd blaenorol.

Roedd cyfran fawr o gynghorau wedi ymateb i'r cais am y wybodaeth uchod, a dim ond 11 o gynghorau oedd wedi methu ag ymateb.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod nifer y datganiadau o fuddiant a wnaed a/neu'r gollyngiadau a geisir yn parhau i amrywio rhwng cynghorau. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos fel petai unrhyw gydberthynas rhwng y ffactorau hyn a lefel yr hyfforddiant a ddarparwyd ar y Côt Ymddygiad.

Yn yr un modd, nid oedd tystiolaeth glir o unrhyw gydberthynas rhwng darparu hyfforddiant ar y Côt a nifer y cwynion yn ymwneud â'r Côt, ac nid oedd patrwm cyson o gwynion yn erbyn cynghorau penodol.

Nododd y Pwyllgor fod y dystiolaeth ystadegol at ei gilydd yn awgrymu lefel gyffredinol dda o gydymffurfiaeth â'r Côt gan Gyngorau Tref a Chymuned ledled y sir.

Gofynnwyd, o blith y cynghorau nad oeddent wedi ymateb, faint ohonynt oedd yn rhannu Clerc? Cynigiodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol roi'r wybodaeth hon yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, gan nad oedd ganddo'r wybodaeth wrth law.

Awgrymwyd, gan fod rhai cynghorau yn rhagweithiol o ran yr hyfforddiant ar y Côt Ymddygiad ac yn sicrhau bod datganiadau o fuddiant yn berthnasol ac yn cael eu diweddarau, y gallai fod yn ddefnyddiol gofyn i'r cynghorau hyn gynorthwyo o ran cyfrannu at gyflwyno'r hyfforddiant. Cytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i nodi hyd at 3 chynghor rhagweithiol i'w gwahodd i gymryd rhan yn y rownd nesaf o sesiynau hyfforddiant.

Yn ogystal, er mwyn i'r Pwyllgor Safonau allu asesu a yw'r hyfforddiant a ddarperir yn cael ei roi ar waith, awgrymodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol gynnal sampl o gofnodion Cynghorau Tref a Chymuned o ran datganiadau o fuddiant. Dywedwyd y gallai canlyniadau'r gwaith samplu fod yn fuddiol o ran rhoi dealltwriaeth well i'r Pwyllgor Safonau ynghylch sut mae cynghorau yn cofnodi ac yn gweinyddu buddiannau. Felly cynigiwyd bod sampl flynyddol o 25% yn cael ei chynnal a bod y canlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn unol â hynny.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

- 7.1 dderbyn yr adroddiad;**
- 7.2 bod Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn trefnu cynnal sampl o 25% o gofnodion Cynghorau Tref a Chymuned yn flynyddol a bod y canlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.**

**8. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD
AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS
YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

Rhoddodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith wybod i'r Pwyllgor, er nad oedd cyflwyno Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cael effaith uniongyrchol ar y Pwyllgor Safonau, fod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau.

Felly, pwysleisiwyd mai swyddogaethau newydd y Pwyllgor Safonau o dan y Bil fyddai sicrhau bod arweinwyr grŵp yn cael cyngor a hyfforddiant i gefnogi eu dyletswyddau newydd a monitro cydymffurfiaeth yr arweinwyr grŵp â'r dyletswyddau hynny.

Yn ogystal, roedd y Bil yn cynnwys gofyniad i'r holl brif gynghorau weddarlledu'r cyfarfodydd a oedd yn agored i'r cyhoedd wrth iddynt gael eu cynnal.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Y PWYLLGOR SAFONAU
21/02/20

CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y
CYNGHORYDD ANNE CARYS JONES

Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:
Ystyried a phenderfynu ar y cais

Y rhesymau:

Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn rhan o faes gorchwyl y Pwyllgor.

Argymhellion / Sylwadau'r Pwyllgor Craffu:

Amherthnasol

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad NAC OES

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad NAC OES

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:- Y
Cynghorydd E Dole (Arweinydd)

Y Gyfarwyddiaeth

Y Prif Weithredwr

Enw Pennaeth y Gwasanaeth:

Linda Rees-Jones

Awdur yr Adroddiad:

Robert Edgecombe

Swyddi:

Pennaeth Gweinyddiaeth a'r
Gyfraith

Rheolwr Dros Dro y
Gwasanaethau Cyfreithiol

Rhifau ffôn:

01267 224018

Cyfeiriadau E-bost:

rjedgeco@sirgar.gov.uk.

**EXECUTIVE SUMMARY
STANDARDS COMMITTEE
21/01/20**

**APPLICATION FOR DISPENSATION BY COUNCILLOR ANNE
CARYS JONES**

An application for dispensation has been received from County Councillor Anne Carys Jones to speak and make written representations only in respect of business relating to parking on the Green at Llansteffan.

Councillor Jones would have a personal interest in any such business by virtue of paragraph (10)(2)(a) (vi) of the members code as Cllr Jones and her family live directly opposite the area of land in question.

This interest would be prejudicial as a member of the public with knowledge of the relevant facts would reasonably regard the interest is so significant that it is likely to prejudice her judgement of the public interest.

The application is made on 3 grounds specified in the regulations, namely;

1. That her participation would not damage public confidence in the conduct of that business.
2. That her interest is common to her and a significant proportion of the general public
3. Her participation is justified by her particular role or expertise

If the committee is minded to grant Councillor Jones a dispensation in respect of this interest it has an absolute discretion as to the duration of that dispensation.

DETAILED REPORT ATTACHED ?

YES

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: Linda Rees Jones

Head of Administration and Law

Policy, Crime & Disorder and Equalities NONE	Legal NONE	Finance NONE	ICT NONE	Risk Management Issues NONE	Staffing Implications NONE	Physical Assets NONE
--	----------------------	------------------------	--------------------	---------------------------------------	--------------------------------------	--------------------------------

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed: Linda Rees Jones

Head of Administration and Law

1. **Scrutiny Committee** Not applicable
2. **Local Member(s)** Not applicable
3. **Community / Town Council** Not applicable
4. **Relevant Partners** Not applicable
5. **Staff Side Representatives and other Organisations** *Not applicable*

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information

List of Background Papers used in the preparation of this report:

THESE ARE DETAILED BELOW

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Legal file	DPSC-180	Legal Services, County Hall

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CAIS I'R PWYLLGOR SAFONAU
AM OLLYNGIAD**

Nodwch fod yn RHAID llenwi pob adran. Cyfeiriwch at y Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig wrth lenwi'r ffurflen hon.

1. EICH MANYLION

Eich enw llawn: Anne Carys Jones

Enw eich Cyngor: Cyngor Sir Gâr

Eich cyfeiriad a'ch côd post: Y Garth, The Green, Llansteffan, Caerfyrddin SA33 5LW

Rhif(au) ffôn: 07970 902996 / 01267 241563

Cyfeiriad e-bost: acarysjones@sirgar.gov.uk / carysjones@cym.ro

2. MANYLION AM EICH BUDDIANT

Beth yw'r mater o dan ystyriaeth?

PARCIO AR Y GREEN, LLANSTEFFAN: Y Green yw'r sribyn o dir sydd yn rhedeg yn gyfochrog â'r traeth yn Llansteffan. Mae ceir wedi parcio ar dir Y Green ers blynyddoedd lawer iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r Green yn eiddo i'r Cyngor Sir. Mae un sribyn o'r tir yn eiddo i'r Cyngor Cymuned. Mae'r Green wedi ei gofrestru yn Village Green, felly nid oes hawl parcio arno. Mae cwyn swyddogol wedi ei gyflwyno gan drigolyn lleol i'r Cyngor Cymuned am "ganiatau" parcio ar dir Village Green. Mae dilema mawr gan y ddau gyngor nawr wrth geisio datrys problemau parcio Llansteffan.

Beth yw eich buddiant yn y mater uchod?

Rydw i'n byw yn y rhes tai sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r Green. Mae tir hamdden Y Morfa y tu ôl i'r ty.

Nid oes neb o'r ty yn parcio ar y Green - mae gennym barcio preifat a garej.

Pryd fydd y mater uchod yn cael ei ystyried?

Cyflwynwyd y cwyn swyddogol ym mis Tachwedd 2019, ac fe'i drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned ar Ragfyr 16eg pryd y pleidleisiodd y Cyngor Cymuned dros geisio cyngor cyfreithiol cyn trafod ymhellach. Nid ydw i'n gynghorydd cymuned, ond fe adawais y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ar gyngor y Swyddog Monitro.

Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried gan sawl corff/sefydliad dros y misoedd nesaf.

A ydych yn gwneud cais am ollyngiad i:

Siarad yn unig: ✓

Siarad a phleidleisio:

Gwneud sylwadau
ysgrifenedig ✓

Arfer Pwerau
Gweithrediaeth

3. RHESYMAU DROS OLLYNGIAD

Mae rheoliadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu'r amgylchiadau lle gall y Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiad. Ceir crynodeb o'r rhesymau dros ganiatáu gollyngiad isod ac maent wedi'u nodi'n llawn yn y nodiadau cyfarwyddyd atoddedig. Am ba un o'r rhesymau canlynol ydych chi'n credu y dylid caniatáu gollyngiad yn yr achos hwn? Ticiwch y blwch/blychau priodol.

• mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy'n ystyried y busnes	<input type="checkbox"/>
• byddai fy anallu i gymryd rhan yn newid cydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i raddau a fyddai'n debygol o effeithio ar y canlyniad;	<input type="checkbox"/>
• ni fyddai'r ffaith fy mod yn cymryd rhan yn niweidio hyder y cyhoedd	<input type="checkbox"/> ✓
• mae'r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;	<input type="checkbox"/> ✓
• mae cyfiawnhad i mi gymryd rhan yn y busnes oherwydd fy rôl neu arbenigedd penodol;	<input type="checkbox"/> ✓
• bydd y busnes yn cael ei ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu ac nid yw fy muddiant yn fuddiant ariannol;	<input type="checkbox"/>
• mae'r busnes yn ymwneud â materion ariannol neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall	<input type="checkbox"/>
• mae'n briodol gwneud hynny yn yr holl amgylchiadau lle nad yw'n bosibl fel arall gwneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anabledd person	<input type="checkbox"/>

4. GWYBODAETH I GEFNOGI EICH CAIS

Nodwch isod y rhesymau pam rydych yn credu y dylai'r Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiad yn yr achos hwn:

(Sylwch, os na fyddwch yn llenwi'r adran hon bydd y ffurflen gais yn cael ei dychwelyd atoch)

PARCIO AR Y GREEN, LLANSTEFFAN - CEFNDIR:

Y Green yw'r sribyn o dir sydd yn rhedeg yn gyfochrog â'r traeth yn Llansteffan. Mae ceir wedi parcio ar dir Y Green ers blynyddoedd lawer iawn - mae tystiolaeth o barcio arno yn mynd yn ôl i'r '50au ac efallai mor bell yn ôl a'r '30au. Mae Maes Parcio swyddogol ym mhen deheuol y Green, sy'n eiddo i'r Cyngor Sir, ac sydd â 88 gofod parcio ceir. Yn ystod yr haf, neu ar Wyliau'r Banc, bydd cyfanswm o tua 250-300 o geir yn chwilio am le i barcio i gael mynediad i'r traeth/cyfleusterau/chips/siop.

Mae'r rhan fwyaf o'r Green yn eiddo i'r Cyngor Sir, sef y llain sy'n rhedeg o'r Maes Parcio at y Cae Pel-droed ym mhen gogleddol Y Green. Mae un sribyn o'r tir a effeithir gan y parcio yn eiddo i'r Cyngor Cymuned - tua 10% - sy'n cynnwys y fynedfa i'r llain ogleddol. Mae'r Green wedi ei gofrestru yn Village Green, felly nid oes hawl parcio arno. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf mae Camper Vans wedi bod yn aros yn llain ogleddol Y Green - hyd at 10-12 rhai nosweithiau, ac mae hyn wedi achosi nifer o gwynion answyddogol. Dros y blynyddoedd mae'r Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir wedi ceisio dod i'r afael â datrys y broblem o orfodi'r gwaharddiad parcio ar gyfer cerbydau mawr/pob cerbyd, ond byddai hyn yn creu problemau parcio dybryd a difrifol yn Llansteffan, felly nid yw'r mater wedi symud ymlaen.

PAM NAWR?

Mae Cwyn Swyddogol wedi ei gyflwyno'n ddiweddar i'r Cyngor Cymuned gan drigolyn lleol am "ganiatau" parcio ar dir Village Green. Mae dilema mawr gan y ddau gyngor nawr wrth geisio datrys problemau parcio Llansteffan.

Bydd gorfodi'r gwaharddiad parcio ar Y Green yn golygu bod:

- Hyd at 200 o geir yn chwilio am le i barcio pan fo'r Maes Parcio'n llawn;
- Camper Vans yn cymryd lle 2 gar yn y Maes Parcio;
- Ceir yn parcio ar hyd yr hewlydd culion a rhwystro mynediad i gerbydau brys;
- Ceir yn parcio ar dir Y Morfa, sef tir hamdden y pentref, sy'n eiddo i'r Cyngor Sir;
- Ceir yn parcio ar dir/mynedfeydd eiddo preifat yn y pentref.

(mae nifer o'r uchod yn digwydd eisioes ar ddiwrnodau braf)

Mae'n amlwg felly bod rhaid dod o hyd i ateb i'r problemau parcio hyn, nid dim ond symud y broblem i ran arall o'r pentref. Mae'r Cwyn Swyddogol yn golygu na ellir osgoi'r mater ymhellach.

FY RHAN I FEL CYNGHORYDD CYMUNED (gynt):

Bum i'n Gynghorydd Cymuned am rhyw dair mlynedd-ar-ddeg cyn sefyll i lawr pan ges i fy ethol yn Gynghorydd Sir yn 2017. Rydw i'n credu bod y gymuned yn gryfach o gael dau lais ar wahan i'w cynrychioli, er bod y ddau lais yn hollol gytun y rhan helaeth o'r amser, ac rwy'n gweld fy rôl i'n un o gyflwyno gwybodaeth a chynnig cefnogaeth i'r Cyngor Cymuned fel bod y ddau gyngor yn gallu gweithio law-yn-llaw ar faterion pan fo hynny'n briodol.

Mae pob aelod o'r Cyngor Cymuned wedi cael eu hethol ar fy ôl i - y rhan fwyaf ohonynt ond wedi bod ar y Cyngor am flwyddyn neu ddwy, felly fi yw'r un sydd wedi bod yn trafod y materion hyn yr hiraf. Mae nifer o'r cynghorwyr cymuned yn denau eu gwybodaeth ar hanes trafod y parcio ar Y Green. Mae'r clerc hefyd yn weddol dibrofiad.

Rydwi'n mynychu pob cyfarfod misol o'r Cyngor Cymuned ond **NID OES GEN I BLEIDLAIS**. Dros fy mlynnyddoedd i fel Cyngorydd Cymuned, daeth mater parcio ar Y Green i'r brig yn weddol reolaidd - dan ofal tri chlerc gwahanol a sawl cadeirydd. Bob tro y trafodwyd y mater fe gredwyd bod y tir yn eiddo i'r Cyngor Sir ac mai mater i'r Sir fyddai datrys y broblem. Ers i mi gael fy ethol yn Gyngorydd Sir (2017) rydw i wedi darganfod bod y Cyngor Cymuned yn berchen ar un llain o'r Green - mewn rhodd trwy gytundeb a wnaethpwyd rhwng y Cyngor Sir a Pherchennog Preifat ym 1981. Mae hwn yn cynnwys y fynedfa i'r rhan ogleddol.

Dwi wedi gwneud ymchwil pellach i'r sefyllfa ar Y Green, gan wybod y byddai'r mater yn dod i'r brig rhywbryd. Mae gen i ddogfennau a mapiau (trwy drafodaeth gyda'r swyddogion priodol yn y Cyngor Sir) sy'n ceisio sefydlu beth yw'r "status quo" cyn ein bod yn symud ymlaen, a hoffwn i barhau i wneud y gwaith hwn. Mae hyn yn golygu sefydlu, unwaith ac am byth, beth yw statws Village Green y clytwaith o dir (mae'r Cyngor Sir yn gweithio ar hyn ar hyn o bryd), a beth yn union sy'n berthnasol yn gyfreithiol, gan bod nifer o ddeddfau yn gwrth-ddweud ei gilydd. Mae hefyd angen cyflwyno y gwahanol scenarios o ganlyniad i orfodi'r gwaharddiad parcio, fel y gall y ddau gyngor a'r gymuned ystyried yr oblygiadau yn drwyadl cyn dod i unrhyw benderfyniad ar y ffordd ymlaen. Mae angen cyngor cyfreithiol allanol i ddod i'r afael â rhai o'r cwestiynau hyn.

FY MUDDIANT I:

Rydwi'n byw yn y rhes tai sy'n wynebu'r Green a'r traeth, felly gellid dadlau y byddai'r mater hwn yn effeithio ar fy nhyfleustra i, neu gwerth fy nhy. Mae ceir wedi gyrru ar y Green o flaen fy nhy ers i mi fyw yno - 27 mlynedd - a tydw i, na neb o'm cartref, erioed wedi cwyno. Mae gyda ni barcio preifat a garej y tu ôl i'r ty, felly dydy parcio ddim yn broblem i ni. Mae bron pawb sy'n byw ar y Green yn berchen garej/llain parcio yn y cefn.

Mae'r Green o flaen fy nhy i yn gul iawn, a bydd ceir yn gyrru heibio yn hytrach na pharcio gan y byddai parcio yn rhwystr i geir eraill. Teg yw dweud mai fy nhy i yw un o'r tai sy'n cael eu heffeithio leiaf gan barcio ar Y Green. Nid oes gen i fuddiant busnes nac arall yn y mater hwn. Mae budd pawb sy'n byw ar y Green yn bwysig fan hyn. Mae rhai yn mwynhau parcio ar y Green ac eraill yn gwrthwynebu. Mae'r rhai sy'n byw ar hewlydd ychydig yn ôl o'r traeth hefyd yn cael eu heffeithio - rhai ohonynt, eto, llawer yn fwy na fi.

Mae'r parcio, neu unrhyw newididau i'r parcio, yn effeithio ar bawb yn y pentref mewn un ffordd neu arall, ac felly dwi'n teimlo na fyddwn yn gwneud fy ngwaith petawn yn ymneilltuo'n llwyr o'r mater. Dwi'n credu y byddai'r cyhoedd yn siomi petawn i ddim yn gallu cyfrannu i sicrhau bod popeth yn cael ei drafod a'i benderfynu rhwng y ddau gyngor mewn modd agored a thryloyw.


Mae'n bwysig i ddweud nad oes gen i farn ar y parcio ar Y Green. Tydy'r parcio ddim wedi fy mhoeni, ond dwi wedi bod yn ymwybodol ar hyd yr amser y byddai'r diwrnod yn dod pan fyddai raid wynebu'r problemau a cheisio dod o hyd i drefniant i ddatrys y broblem. Dwi wedi cael llawer o amser i ystyried oblygiadau gwahanol drefniadau newydd, ac wedi eu nodi fel y gall y gymuned a'r Cyngor Sir ystyried pob opsiwn yn drwyadl.

Yn y pen draw bydd rhaid dod o hyd i gynllun sy'n datrys y broblem parcio ar Y Green mewn un ffordd neu arall. Dwi'n credu bod gen i gyfraniad di-duedd i'w wneud i hyrwyddo'r broses, heb ddylanwadu, tra'n sicrhau bod pawb yn ystyried pob posibiliad ac oblygiad - er lles amwynder y trigolion a'r ymwelwyr.

Mae hyn yn bwysig i mi oherwydd bod perygl i'r cwynwr ddwyn achos llys yn erbyn y Cyngor Cymuned a/neu'r Cyngor Sir. Tydw i ddim am weld unrhyw oedi na llaesu dwylo wrth geisio symud ymlaen â'r mater hwn, fyddai'n niweidiol i'r cynghorau a'r gymuned drwyddi draw.

Cadarnhaf fod y wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n cytuno y gall y cais hwn a'r holl wybodaeth a gynhwysir ynddo ffurfio rhan o adroddiad cyhoeddus i'r Pwyllgor Safonau. Rwy'n gwneud cais am ollyngiad mewn perthynas â'r mater uchod.

Llofnod:



Dyddiad:

31 / 12 /19

Dylech ddychwelyd y ffurflen hon at y Swyddog Monitro, Adran y Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP.

Nodiadau Cyfarwyddyd

(1) Dylech ddarllen y Côd Ymddygiad a phenderfynu pa un o'r paragraffau sydd fwyaf priodol yn eich achos chi. Ceir manylion cryno am y paragraffau perthnasol yn y tabl isod. Os nad ydych yn sicr, cysylltwch â'r Swyddog Monitro i gael cyngor.

Para.	Y math o fuddiant personol	
10(2)(a)	Busnes y Cyngor sy'n ymwneud â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none">eich cyflogaeth neu'ch busneseich cyflogwr, busnes neu'ch cwmnicontract a wnaed rhwng y Cyngor a chiunrhyw dir, prydles neu drwydded y mae gennych fuddiant ynddyntcorff cyhoeddus neu gymdeithas arall yr ydych yn aelod ohonynt neu lle'r ydych yn dal swydd reolaeth gyffredinol	
10(2)(c)	Busnes y Cyngor sy'n effeithio eich lles neu'ch sefyllfa ariannol, neu les, sefyllfa ariannol neu fuddiannau eraill person yr ydych yn cyd-fyw ag ef/hi neu y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi	
13	Busnes y Cyngor sy'n cael ei ystyried gan Bwyllgor Trosolygu a Chraffu ac sy'n ymwneud â phenderfyniad y Cabinet neu Bwyllgor arall yr oeddech yn aelod ohono ar y pryd [Cyngor Sir yn unig]	

(2) Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi y gall Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiadau yn y sefyllfaoedd canlynol:

- os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw
- os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet yr awdurdod perthnasol y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;
- yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, byddai anallu'r aelod i gymryd rhan yn newid cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod a fydd yn ystyried y busnes i raddau a fyddai'n debygol o effeithio ar y canlyniad;

- (d) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;
- (e) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;
- (f) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;
- (g) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;
- (h) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i faterion ariannol neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu
- (i) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.
- (j) os ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny yn yr holl amgylchiadau lle nad yw'n bosibl fel arall gwneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anabledd person

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Y PWYLLGOR SAFONAU
21/01/20

CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y
CYNGHORYDD EDWARD THOMAS

Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

Ystyried a phenderfynu ar y cais

Y rhesymau:

Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn rhan o faes gorchwyl y Pwyllgor.

Argymhellion / Sylwadau'r Pwyllgor Craffu:

Amherthnasol

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad NAC OES

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad NAC OES

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:- Y
Cynghorydd E Dole (Arweinydd)

Y Gyfarwyddiaeth

Y Prif Weithredwr

Enw Pennaeth y Gwasanaeth:

Linda Rees-Jones

Awdur yr Adroddiad:

Robert Edgecombe

Swyddi:

Pennaeth Gweinyddiaeth a'r
Gyfraith

Rheolwr Dros Dro y
Gwasanaethau Cyfreithiol

Rhifau ffôn:

01267 224018

Cyfeiriadau E-bost:

rjedgeco@sirgar.gov.uk.

**EXECUTIVE SUMMARY
STANDARDS COMMITTEE
21/01/20**

**APPLICATION FOR DISPENSATION BY
COUNCILLOR EDWARD THOMAS**

A dispensation application has been received from Councillor Edward Thomas of Llandeilo Fawr Town Council to speak only in respect of any council business relating to grants from the Town Council to the Llandeilo and District Sports Association.

Councillor Thomas would have a personal interest in such council business by virtue of paragraph 10(2)(a)(ix)(ee) of the members code of conduct as he is chairman of the Llandeilo and District Sports Association.

This personal interest would also be prejudicial as a member of the public with knowledge of the relevant facts would reasonably regard the interest as so significant that it would be likely to prejudice the Councillor's judgement of the public interest.

